

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 No. 2689

Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth
(Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005

RHAN 1
CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Mynediad i Wybodaeth (Mabwysiadu Ôl-gychwyn) (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.